O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif. 405 (Cy. 49)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2013

*Gwnaed 25 Chwefror 2013*

*Yn dod i rym 28 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid dileu cyfyngiadau cyflymder ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, mewn mannau lle y cyfyngir ar y gefnffordd ar hyn o bryd gan oleuadau stryd.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124 o, a pharagraff 27 o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

### Enwi a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2013.

2. Cyfarwyddir bod y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.

**Dirymu**

3. Drwy hyn mae Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2012**(2)** wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Chwefror 2013

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Diwygiwyd adran 82(2) ac adran 83(1) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 59(3) a 60(2). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2012/3249-Cy.324

## YR ATODLEN

(i) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan y Rhigos hyd at bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Hirwaun.

(ii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 142 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan hyd at bwynt 59 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan, sef pellter o 202 o fetrau.

(iii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 488 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4276, Cyffordd Baverstocks hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Lower Vaynor Road, gan gynnwys prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cefncoedycymer, sef pellter o 3,648 o fetrau.

(iv) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd orllewinol â Chylchfan Dowlais Top hyd at bwynt 242 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Dowlais Top.

(v) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd dwyreiniol â Chylchfan Dowlais ar yr A4060 hyd at bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dowlais ar yr A4060, sef pellter o 70 o fetrau.